



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

21 CHWEFROR 2018

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2017/18 – 2020/21

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 I gyflwyno'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig i'r Cyd-Bwyllgor ei gymeradwyo.

2.0 Cefndir ac Ystyriaethau

2.1 Mae'r CATC yn ddogfen drosolwg sy'n adnabod y prif faterion ariannol gaiff effaith ar GwE yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'n amlinellu dull strategol GwE o reoli ei gyllid ac yn amlinellu'r materion ariannol fydd yn wynebu GwE yn y pedair blynedd nesaf. Mae cyflawni'r strategaeth yn ddibynnol ar yr adnoddau fydd ar gael trwy gyfrwng setliadau Llywodraeth Cymru (LIC) ac ar lwyddiant GwE yn alinio adnoddau â blaenoriaethau ei wasanaeth.

2.2 Mae'r CATC yn amlinellu siâp cyffredinol cyllideb GwE ac yn amlinellu model o'r gofynion ariannol ar gyfer cyflawni lefelau gwasanaeth yn y tymor canolig. Mae hyn yn cynnig fframwaith fel y gall y Cyd-bwyllgor a swyddogion ddatblygu dyraniadau cyllideb blynyddol manwl.

2.3 Bydd y CATC yn adnodd allweddol ar gyfer rheoli cyllid yn rhagweithiol. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel sail i osod cyllideb flynyddol ac i sicrhau bod anghenion adnoddau GwE am y flwyddyn sydd i ddod yn ddigonol ac wedi'u halinio â'r blaenoriaethau cywir. Mae hefyd

yn caniatáu adnabod gofynion cyllido rhagamcanol y dyfodol yn ddigon buan fel y gellir cynllunio gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r lefelau cyllid disgwylidig.

2.4 Adolygwyd y CATC yn dilyn cytundeb ar y gyllideb graidd ar gyfer 2018/19.

3.0 Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo'r adroddiad a'r gweithredu a nodwyd, fel yr amlinellir yn 5.8

4.0 Goblygiadau Ariannol / Risgiau

4.1 Mae'r CATC yn adnabod y prif faterion ariannol gaiff effaith ar GwE yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r cynllun yn ddibynol ar ffactorau sydd y tu allan i reolaeth GwE ac yn gofyn am fonitro manwl ac ystyriaeth er mwyn cyfyngu ar yr effaith.

5.0 Effaith ar Gydraddoldeb

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Goblygiadau Personél

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

7.1 Paratowyd yr adroddiad hwn drwy ymgynghori â Swyddog Cyllid Adran 151 yr awdurdod lletyol, yn dilyn cyfarwyddyd gan y Prif Weithredwyr, sy'n cefnogi'r argymhelliad.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Rwy'n cefnogi'r egwyddor o baratoi cynllun ariannol fel cam priodol o safbwynt reolaeth ariannol gan nodi fod gosod cyfanswm arian craidd y gwasanaeth yn fater sydd wedi ei adael yn ôl i'r Cynghorau

Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.
